

Nyrs Staff Anableddau Dysgu

Jayne Sterriker
Nyrsio



GIG
CYMRU
NHS
WALES

75



Rwy'n nyrs staff yn un o'r tair ward anabledd dysgu yn Ysbyty Bryn y Neuadd. Rwy'n gweithio mewn tîm sy'n cefnogi 8 o fonheddwyr mewn byngalos ar dir yr ysbyty. Mae'r swydd mor amrywiol ac yn defnyddio ystod eang o sgiliau; addysgu, cwnsela, rhianta, eirioli, cefnogi, ac yn gyffredinol gallu meddwl ar eich traed a meddwl am ffyrdd dyfeisgar o gyfathrebu.

Rwy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol gyda gwerthoedd, nodau a dyheadau a rennir, ac yn fwy diweddar cael cyswllt mwy uniongyrchol â chleifion. Byddwn yn argymhell nyrsio anabledd dysgu i unrhyw un fel gyrfa.

Mae fy niddordeb wastad wedi bod mewn anableddau dysgu ac fe wnes i gwblhau fy hyfforddiant dysgu yn y maes hwn. Yna deuthum i Ogledd Cymru i gael mwy o brofiad, ar ôl gweithio fel cynorthwy-ydd nyrsio mewn ysbyty yn Nwyrain Swydd Efrog yn ystod fy ngwyliau haf. Dwi byth wedi gadael!

Rwy'n falch o weithio i'r GIG. Er gwaethaf anawsterau gwasanaeth sydd wedi'i dangyllido a'i orweithio yn aml, cefais y frainc o weithio ochr yn ochr â rhai o'r bobl fwyaf caredig a thosturiol rwyf erioed wedi cwrdd â nhw. Rwy'n ddiolchgar nid yn unig fel gweithiwr ond hefyd fel derbynnydd gofal caredig a thosturiol.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)